



Effaith Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Pentreuchaf 2018-2019

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad disgyblion PYD a gweddill y cohort dros dreigl amser yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn derbyn cyfanswm o £15,00 o arian GDD (yn cynnwys GDD ar gyfer disgyblion o dan 5 oed). Mae 100% o'r gwariant yn mynd ar gyflogi staff. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r cymorthydd/ion er mwyn targedu sgiliau sylfaenol ac er mwyn sicrhau cynhaliath ym maes lles i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn o dracio a thargeddu disgyblion ac maent yn cadw cofnod manwl o'r cynnydd y mae'r grŵp yma o ddysgwyr yn ei wneud drwy gydol y flwyddyn academaidd. Defnyddir system Incerts ysgol gyfan er mwyn gwneud y gwaith yma. Yn ogystal, disgwylir i'r athrawon greu adroddiad interim tymhorol ar gyfer y grwpiau o ddisgyblion PYD ym mhob dosbarth yn edrych ar y cynnydd yn erbyn bob targed. Mae'r cyfnodau targedu yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn derbyn sylw fel rhan o grwpiau ymyrraeth fechan yn y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn adnabod yr angen i fireinio'r system dracio cynnydd lles ac iechyd meddyliol % uchel o ddisgyblion er mwyn bod yn fwy effeithiol eto gyda'u hadnabyddiaeth o effaith y GDD. Maent yn gweld yr angen i ddatblygu systemau ac asesiadau megis 'Boxhall' ac 'Motional' fydd yn adnabod effeithlonrwydd y gwariant GDD o ystyried faint o arian y pen y mae pob disgybl yn ei gael yn erbyn y dyraniad.

Agwedd	Dull Gweithredu	Adnodd Ariannol	Effaith
Cynllun Ymyrraeth Llythrennedd yn y CS	<p>Cymorthyddion Dosbarth yn targedu grŵp bychan o ddisgyblion CS sydd wedi cael eu hadnabod gan yr ysgol ac yr ymgynghorwyd arnynt gyda'r Seicolegydd Addysg. Cyfnod wythnosol o 45 munud.</p> <p>Cymorthyddion Dosbarth wedi targedu disgyblion Meithrin / Derbyn (blaenoriaeth 1 CDY 2018/19)</p> <p>Pwyslais ar dechnegau aml synhwyrdd a dysgu trwy chwarae. Defnyddio adnoddau 'Tric a Chlic' ac adnoddau wedi eu teilwrio yn arbennig megis gemau</p>		<p>Cyfle i'r disgyblion weithio mewn grŵp bychan o blant gydag anawsterau tebyg.</p> <p>Gwella eu hyder wrth drin llythrennau a geiriau – dechrau adeiladu ac ysgrifennu brawddegau syml.</p> <ul style="list-style-type: none">➤ Plant Saesneg ar yr aelwyd - Bob un disgybl wedi gwneud cynnydd da mewn iaith lafar, darllen a phatrymau sillafu.➤ Darllen - Bron bob un disgybl yn y Dosbarth Derbyn yn gallu darllen llyfrau 'Tric a chlic' ac ychydig ohonynt yn gallu adeiladu geiriau yn annibynnol.

	geiriau aml-ddefnydd a chardiau adeiladu brawddegau. Rhannu adnoddau a strategaethau efo'r athrawes ddosbarth a chymorthyddion.		<p>Disgyblion yn magu strategaethau i gynorthwyo eu hunain ac yn cychwyn cyffredinol i'r sgiliau hyn ar lawr y dosbarth.</p> <p>Trwy asesiadau ffurfiol a ffurfiannol, gweld cynnydd yng ngallu'r disgyblion i ddarllen testunau syml yn fwy rhugl, gan ddangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.</p> <p>Yn ogystal, bu cynnydd yng ngallu'r disgyblion i sillafu geiriau unsill, cyfarwydd yn annibynnol.</p>
Targedau sgiliau llythrennedd a rhifedd ddisgybl PYD	<p>Sylw i ddisgyblion PYD, sy'n dangos oediad sylweddol yn eu datblygiad addysgol cyffredinol.</p> <p>Buddsoddir mwn amser a rhaglenni ymyrraeth megis 'Black Sheep' a Semanteg Lliwgar er mwyn targedu</p>		<p>Gosod targedau mesuradwy a chyraeddadwy. Sicrhau digon o gyfleoedd i ganmol a llwyddo a hynny yn ei dro yn magu hunan hyder. Darparu adnoddau a strategaethau i'w chynorthwyo ar lawr y dosbarth, a thrafod y rhain gyda'r cymhorthydd. Hyn yn arfogi'r cymhorthydd ar sut orau i gwrdd ag anghenion y disgyblion.</p> <p>Llyfrau gwaith ac asesiadau yn dangos fod y disgyblion hyn wedi gwneud cynnydd cadarn a chryf ers mis Medi 2018.</p>
Targedau disgyblion PYD / Bregus CA2	<p>Uwch sgilio athrawes / cydlynnydd ADYaCh gyda hyfforddiant MAPA (Management of Actual or Possible Aggression) er mwyn lleihau achosion a diogelu disgyblion bregus.</p> <p>Cynnal asesiadau Boxhall ar les a chyflwr emosiynol ar 22% o ddisgyblion CA2 gan gynnwys disgyblion PYD.</p> <p>Gweithredu rhaglenni ymyrraeth yn dilyn asesiadau ar 18% o'r disgyblion hyn.</p>		<p>Mae arwyddion cynnar yn dangos effaith gadarnhaol yn dilyn defnyddio'r strategaethau hyn. Er hyn, oherwydd natur yr anghenion (lles, iechyd emosiynol ac ati) nid yw'n bosib mesur gwir effaith y rhaglenni a gweithgareddau ymyrraeth ar hyn o bryd.</p> <p>Mae angen rhoi amser i'r cynlluniau hyn wreiddio. O'r herwydd, bydd yr ysgol yn blaenoriaethu'r agwedd yma yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol 2019- 2020.</p>

	<p>Adnabod, asesu a gwella iechyd emosiynol grŵp o ddisgyblion yr ysgol sydd wedi profi trawma yn eu plentyndod cynnar. Defnyddir offeryn 'Motional' i gynnal yr asesiadau ac i lunio cynlluniau gweithredu ar gyfer y disgyblion hyn.</p>		
<p>ANGEN GWEITHREDU</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Gweithredu rhaglenni ymyrraeth / gweithgareddau <i>Boxhall</i> gyda grŵp o ddisgyblion B15/6. ✓ Athrawon i gwblhau taflenni Monitro Cynnydd grwpiau disgyblion dosbarthiadau. ✓ Athrawon i gynnal asesiadau Boxhall yn dilyn arweiniad gan gydlynnydd ADYaCh gan dargedu disgyblion bregus iawn yn y lle cyntaf. 		